



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 Rhif 1730 (Cy.164)

2002 No. 1730 (W.164)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd
(Cyfyngu'r Defnydd ar Beledi
Plwm) (Cymru) 2002

The Environmental Protection
(Restriction on Use of Lead Shot)
(Wales) Regulations 2002

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulation)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru, yn gwahardd defnyddio peledi plwm ar gyfer saethu â gwn cetris -

These Regulations, which apply to Wales, prohibit the use of lead shot for shooting with a shotgun -

- (a) ar unrhyw fan islaw'r marc penllanw neu drosti;
- (b) ar y safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig a gynhwysir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau neu drostynt; neu
- (c) unrhyw aderyn gwyllt a gynhwysir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau sef hwyaid a gwyddau (pob rhywogaeth o bob un ohonynt), cwtiar ac iâr ddwr (rheoliad 3).

- (a) on or over any area below the high-water mark;
- (b) on or over the sites of special scientific interest included in Schedule 1 to the Regulations; or
- (c) any wild bird included in Schedule 2 to the Regulations namely ducks and geese (all species of each), coot and moorhen (regulation 3).

Ystyr "peledi plwm" yw unrhyw beledi o blwm neu o unrhyw aloi neu gyfansoddyn plwm a phlwm yn ffurfio mwy nag 1% o'r aloi neu'r cyfansoddyn (rheoliad 2).

"Lead shot" means any shot made of lead or of any alloy or compound of lead where lead comprises more than 1% of that alloy or compound (regulation 2).

Mae rheoliad 4 yn darparu ar gyfer pwerau mynediad ac archwilio, pŵer i gymryd samplau, a phŵer i gymryd unrhyw adar meirw neu rai sydd wedi'u hanafu, er mwyn penderfynu a dorrwyd unrhyw ddarpariaethau'r Rheoliadau.

Regulation 4 provides for powers of entry and inspection, a power to take samples, and a power to take any dead or injured wild birds, in order to determine whether any provisions of the Regulations have been broken.

Mae Rheoliad 5 yn darparu bod torri rheoliad 3, neu rwystro person sy'n arfer unrhyw bŵer o dan reoliad 4, yn dramgwydd troseddol y gellir ei gosbi drwy ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Regulation 5 provides that breach of regulation 3, or obstruction of a person exercising any power under regulation 4, is a criminal offence punishable by a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

Cofrestrir hysbysiadau o safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig o dan adran 28(1) o Ddeddf

Notifications of sites of special scientific interest under section 28(1) of the Wildlife and Countryside

Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fel pridiannau tir lleol (adran 28(9) o'r Ddeddf honno).

Gellir cael manylion o'r ardaloedd sy'n cael eu cynnwys yn y safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig a restrir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Plas Penrhos, Ffordd Penrhos, Bangor, Gwynedd, LL57 2LQ.

Diddymir Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cyfyngu'r Defnydd ar Beledi Plwm) (Cymru) 2001 (O.S. 2001/4003 (Cy.331)) (rheoliad 6).

Act 1981 are registered as local land charges (section 28(9) of that Act).

Details of the areas included in the sites of special scientific interest listed in Schedule 1 to the Regulations can be obtained from the Countryside Council for Wales at Plas Penrhos, Ffordd Penrhos, Bangor, Gwynedd, LL57 2LQ.

The Environmental Protection (Restriction on Use of Lead Shot) (Wales) Regulations 2001 (S.I. 2001/4003 (W.331)), are revoked (regulation 6).

2002 Rhif 1730 (Cy.164)**2002 No. 1730 (W.164)****DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU****ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES****Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd
(Cyfyngu'r Defnydd ar Beledi
Plwm) (Cymru) 2002****The Environmental Protection
(Restriction on Use of Lead Shot)
(Wales) Regulations 2002**

Wedi'u gwneud *4 Gorffennaf 2002*
Yn dod i rym *1 Medi 2002*

Made *4th July 2002*
Coming into force *1 September 2002*

TREFNIANT Y RHEOLIADAU**ARRANGEMENT OF REGULATIONS**

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli
3. Gwahardd defnyddio cetris sy'n cynnwys peledi plwm
4. Pwerau mynediad er mwyn penderfynu a dorrrwyd unrhyw ddarpariaethau'r Rheoliadau
5. Tramgwyddau
6. Diddymu Rheoliadau 2001

1. Citation, commencement and application
2. Interpretation
3. Prohibition on use of cartridges containing lead shot
4. Powers of entry to determine whether any provisions of the Regulations have been broken
5. Offences
6. Revocation of 2001 Regulations

ATODLENNI:**SCHEDULES**

Atodlen 1 - Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

Schedule 1 - Sites of Special Scientific Interest

Atodlen 2 - Adar Gwyllt mewn perthynas â hwy y mae'r Gwaharddiadau ar Saethu â Phelelli Plwm yn Gymwys iddynt.

Schedule 2 - Wild Birds in Respect of which the Prohibition on Shooting with Lead Shot Applies

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

- i) ar ôl ymgynghori â'r pwyllgor a sefydlwyd(a) o dan adran 140(5) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(b);
- ii) ar ôl cyhoeddi hysbysiad yn y London Gazette yn unol ag adran 140(6)(b) o'r Ddeddf honno;
- iii) ar ôl ystyried y sylwadau a gyflwynwyd yn unol â'r hysbysiad hwnnw;

- i) having consulted the committee established(a) under section 140(5) of the Environmental Protection Act 1990(b);
- ii) having published a notice in the London Gazette as required by section 140(6)(b) of that Act;
- iii) having considered the representations made in accordance with that notice;

o'r farn ei bod yn briodol gwneud y Rheoliadau hyn er mwyn atal y sylweddau neu'r eitemau a bennir ynddynt rhag llygru'r amgylchedd a niwedio iechyd

considers it appropriate to make these Regulations for the purpose of preventing the substances or articles specified in them from causing pollution of the

(a) O.S. 1991/1487.

(a) S.I. 1991/1487.

(b) 1990 p.43

(b) 1990 c. 43.

anifeiliaid, ac felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 140 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(a), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:-

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. -(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cyfyngu'r Defnydd ar Beledi Plwm) (Cymru) 2002 ac maent yn dod i rym ar 1 Medi 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "aderyn gwyllt" ("wild bird") yw unrhyw aderyn o fath sy'n preswyllo'n gyffredin yng Nghymru yn gyffedinol, neu syn ymweld â Chymru, mewn cyflwr gwyllt;

ystyr "Rheoliadau 2001" ("*the 2001 Regulations*") yw Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cyfyngu'r Defnydd ar Beledi Plwm) (Cymru) 2001(b);

ystyr "gwn cetris" ("*shot gun*") yw gwn â baril llyfn ond nid yw'n cynnwys unrhyw wn cetris â siambr ar gyfer cetris ymyl-danio naw milimetr neu lai;

ystyr "peledi plwm" ("*lead shot*") yw unrhyw beledi sydd wedi'u gwneud -

(a) o blwm, neu

(b) o unrhyw aloi neu gyfansoddyn plwm a phlwm yn ffurfio mwy nag 1% o'r aloi neu'r cyfansoddyn hwnnw;

ystyr "person awdurdodedig" ("*authorised person*") yw person a awdurdodwyd o dan reoliad 4(1) isod;

mae "safle" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw dir, cerbyd neu gwch, ond nid yw'n cynnwys safle sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion preswyl;

ystyr "safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig" ("*site of special scientific interest*") yw ardal sydd wedi ei hysbysu o dan adran 28(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(c).

environment and harm to the health of animals and therefore, in exercise of the powers conferred by section 140 of the Environmental Protection Act 1990(a), hereby makes the following Regulations:-

Citation, commencement and application

1. -(1) These Regulations may be cited as the Environmental Protection (Restriction on Use of Lead Shot) (Wales) Regulations 2002 and come into force on 1 September 2002.

(2) These Regulations apply to Wales.

Interpretation

2. In these Regulations -

"the 2001 Regulations" ("*Rheoliadau 2001*") means the Environmental Protection (Restriction on Use of Lead Shot) (Wales) Regulations 2001(b);

"authorised person" ("*person awdurdodedig*") means a person authorised under regulation 4(1) below;

"lead shot" ("*peledi plwm*") means any shot made of -

(a) lead, or

(b) any alloy or compound of lead if lead comprises more than 1% of that alloy or compound;

"premises" ("*safle*") includes any land, vehicle or vessel, but does not include premises used for residential purposes;

"shot gun" ("*gwn cetrys*") means a smooth-bore gun but does not include any shot-gun chambered for 9 millimetre or smaller rim-fire cartridges;

"site of special scientific interest" ("*safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig*") means an area of land notified under section 28(1) of the Wildlife and Countryside Act 1981(c);

"wild bird" ("*aderyn gwyllt*") means any bird of a kind which is ordinarily resident in, or is a visitor to, Wales in a wild state.

(a) Trosglwyddwyd y pwerau hyn, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999 / 672).

(b) O.S. 2001 / 4003 (Cy.331).

(c) 1981 p. 69.

(a) These powers, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999 / 672).

(b) S.I. 2001 / 4003 (W.331).

(c) 1981 c.69.

Gwahardd defnyddio cetrís sy'n cynnwys peledi plwm

3. Ni chaiff neb ddefnyddio peledi plwm er mwyn saethu gyda gwn cetrís-

- (a) ar unrhyw fan islaw'r marc penllanw neu drosti;
- (b) ar y safleoedd o ddi-ddordeb gwyddonol arbennig a gynhwysir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau neu drostynt; neu
- (c) unrhyw aderyn gwyllt a gynhwysir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau.

Pwerau mynediad er mwyn penderfynu a dorrwyd unrhyw ddarpariaethau'r Rheoliadau

4.-(1) Gall person sy'n ymddangos yn addas i'r Cynulliad Cenedlaethol gael ei awdurdodi yn ysgrifenedig gan y Cynulliad Cenedlaethol i arfer, yn unol â thelerau'r awdurdod, unrhyw un o'r pwerau a bennir ym mharagraff (2) isod at ddiben penderfynu a dorrwyd unrhyw ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn.

(2) Dyma'r pwerau y gall person awdurdodedig gael ei awdurdodi i'w harfer o dan baragraff (1) uchod -

- (a) mynd i mewn ar unrhyw adeg resymol i unrhyw safle y mae gan y person awdurdodedig le i gredu ei bod yn angenrheidiol mynd i mewn iddo;
- (b) wrth fynd i mewn i unrhyw safle yn rhinwedd is-baragraff (a) uchod bod gydag ef -
 - (i) unrhyw berson awdurdodedig arall;
 - (ii) os bydd sail resymol dros ddisgwyl unrhyw rwystr difrifol a fyddai'n atal y person awdurdodedig rhag cyflawni ei ddyletswydd, gwnstabl; ac
 - (iii) unrhyw gyfarpar (heblaw cyfarpar trwm) neu ddefnyddiau y mae eu hangen at unrhyw ddiben mae'r pŵer mynediad ar ei gyfer;
- (c) wneud unrhyw archwiliad ac ymchwiliad sy'n angenrheidiol o dan yr amgylchiadau;
- (ch) cymryd unrhyw aderyn gwyllt sy'n farw neu wedi'i anafu neu beri bod samplau yn cael eu cymryd o unrhyw eitemau neu sylweddau sy'n cael eu darganfod mewn neu ar unrhyw safle y mae gan y person awdurdodedig bŵer i fynd i mewn iddo ac i beri bod unrhyw aderyn neu sampl felly yn cael ei ddadansoddi neu'i brofi;
- (d) yn achos unrhyw aderyn neu sampl a grybwyllir yn is-baragraff (ch) uchod, cymryd meddiant ohono a'i gadw gyhyd ag y mae ei angen at y cyfan neu unrhyw rai o'r dibenion canlynol, sef -

Prohibition on use of cartridges containing lead shot

3. No person shall use lead shot for the purpose of shooting with a shot gun-

- (a) on or over any area below high-water mark of ordinary spring tides;
- (b) on or over any site of special scientific interest included in Schedule 1 to these Regulations; or
- (c) any wild bird included in Schedule 2 to these Regulations.

Powers of entry to determine whether any provisions of the Regulations have been broken

4.-(1) A person who appears suitable to the National Assembly may be authorised in writing by the National Assembly to exercise, in accordance with the terms of the authorisation, any of the powers specified in paragraph (2) below for the purpose of determining whether any provisions of these Regulations have been broken.

(2) The powers which an authorised person may be authorised to exercise under paragraph (1) above are -

- (a) to enter at any reasonable time any premises which the authorised person has reason to believe it is necessary to enter;
- (b) on entering any premises by virtue of sub-paragraph (a) above to have with him or her -
 - (i) any other authorised person;
 - (ii) if there is reasonable cause to apprehend any serious obstruction which would interfere with the authorised person in the execution of his or her duty, a constable; and
 - (iii) any equipment (other than heavy equipment) or materials required for any purpose for which the power of entry is being exercised;
- (c) to make such examination and investigation as may in the circumstances be necessary;
- (d) to take any dead or injured wild bird or to take samples, or to cause samples to be taken, of any articles or substances found in or on any premises which the authorised person has power to enter and to cause any such bird or sample to be analysed or tested;
- (e) in the case of any such bird or sample as is mentioned in sub-paragraph (d) above, to take possession of it and to retain it for so long as is necessary for all or any of the following purposes, namely -

- (i) ei archwilio, neu beri iddo gael ei archwilio, ac i wneud unrhyw beth iddo y mae gan y person awdurdodedig bŵer i'w wneud o dan yr is-baragraff hwnnw neu beri i hynny gael ei wneud;
- (ii) sicrhau na fydd neb yn ymyrryd ag ef cyn bod yr archwiliad ohono wedi'i gwblhau;
- (iii) sicrhau ei fod ar gael i'w ddefnyddio fel tystiolaeth mewn unrhyw achos llys ar gyfer tramgwydd.

(3) Pan fydd person awdurdodedig yn bwriadu mynd i mewn i unrhyw safle a -

- (a) bod mynediad wedi cael ei wrthod a bod y person awdurdodedig yn disgwyl ar seiliau rhesymol y gall fod yn angenrheidiol defnyddio grym i lwyddo i fynd mewn; neu
- (b) bod y person awdurdodedig yn disgwyl, ar seiliau rhesymol, y bydd mynediad yn debyg o gael ei wrthod ac y gall fod yn angenrheidiol i ddefnyddio grym i lwyddo i fynd i mewn,

rhaid mynd i mewn i'r safle hwnnw yn rhinwedd y rheoliadau hyn o dan awdurdod gwarant yn rhinwedd paragraff (4) isod yn unig.

(4) Os dangosir i ynad heddwch drwy dystiolaeth ysgrifenedig ar lw -

- (a) bod yna seiliau rhesymol dros arfer, mewn perthynas ag unrhyw safle, bŵer o dan y rheoliad hwn (gan gynnwys pŵer sy'n arferadwy yn unol â gwarant o dan y paragraff hwn), a
- (b) bod un neu fwy o'r amodau a bennir ym mharagraff (5) isod wedi ei gyflawni,

gall yr ynad awdurdodi'r Cynulliad Cenedlaethol trwy warant i ddynodi person a awdurdodir i arfer y pŵer mewn perthynas â'r safle, yn unol â'r warant a thrwy rym os bydd angen.

(5) Yr amodau a grybwyllir yn is-baragraff 4(b) uchod yw -

- (a) bod arfer y pŵer mewn perthynas â'r safle wedi'i wrthod;
- (b) y disgwylir yn rhesymol y bydd yn cael ei wrthod;
- (c) bod y safle heb ei feddiannu;
- (ch) bod y meddiannydd yn absennol dros dro o'r safle a bod yr achos yn un brys; neu
- (d) y byddai cais am fynediad i'r safle yn trechu diben y mynediad arfaethedig.

(6) Bydd pob gwarant a roddwyd o dan baragraff (4) uchod yn parhau mewn grym nes bod y dibenion y rhoddyd y gwarant ar eu cyfer wedi eu cyflawni.

- (i) to examine it, or cause it to be examined, and to do, or cause to be done, to it anything which the authorised person has power to do under that sub-paragraph;

- (ii) to ensure that it is not tampered with before examination of it is completed;

- (iii) to ensure that it is available for use as evidence in any proceedings for an offence.

(3) Where an authorised person proposes to enter any premises and -

- (a) entry has been refused and the authorised person apprehends on reasonable grounds that the use of force may be necessary to effect entry; or
- (b) the authorised person apprehends on reasonable grounds that entry is likely to be refused and that the use of force may be necessary to effect entry,

any entry on to those premises by virtue of these regulations shall only be effected under the authority of a warrant by virtue of paragraph (4) below.

(4) If it is shown to the satisfaction of a justice of the peace on sworn information in writing -

- (a) that there are reasonable grounds for the exercise, in relation to any premises, of a power under this regulation (including a power exercisable by virtue of a warrant under this paragraph), and
- (b) that one or more of the conditions specified in paragraph (5) below is fulfilled,

the justice may by warrant authorise the National Assembly to designate a person who shall be authorised to exercise the power in relation to those premises, in accordance with the warrant and, if need be, by force.

(5) The conditions mentioned in sub-paragraph (4)(b) above are -

- (a) that the exercise of the power in relation to the premises has been refused;
- (b) that such a refusal is reasonably apprehended;
- (c) that the premises are unoccupied;
- (d) that the occupier is temporarily absent from the premises and the case is one of urgency; or
- (e) that an application for admission to the premises would defeat the object of the proposed entry.

(6) Every warrant under paragraph (4) above shall continue in force until the purposes for which the warrant was issued have been fulfilled.

(7) Rhaid i berson awdurdodedig, neu berson a ddynodwyd o dan baragraff (4) uchod, ddangos tystiolaeth am yr awdurdod neu'r dynodiad (os gofynnir iddo wneud hynny).

(8) Rhaid i berson awdurdodedig, neu berson a ddynodwyd o dan baragraff (4) uchod, sydd, trwy arfer unrhyw bŵer a roddir gan y rheoliad hwn, yn mynd i mewn i unrhyw safle nad yw wedi'i feddiannu neu y mae ei feddiannydd yn absennol dros dro, adael y safle wedi ei sicrhau yn erbyn tresmaswyr yr un mor effeithiol â chyn i'r person hwnnw fynd i mewn iddo.

(9) Ni fydd person awdurdodedig, neu berson a ddynodwyd o dan baragraff (4) uchod, yn atebol mewn unrhyw achos sifil na throseddol am unrhyw beth a wnaed trwy honni arfer unrhyw bŵer a roddir gan y rheoliad hwn os bydd y llys wedi'i fodloni bod y weithred wedi ei chyflawni'n ddiwyll a bod seiliau rhesymol dros ei chyflawni.

Tramgwyddau

5. -(1) Bydd unrhyw berson sy'n torri rheoliad 3 uchod neu sy'n peri neu'n caniatáu i unrhyw berson arall dorri'r rheoliad hwnnw yn euog o dramgwydd a bydd yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(2) Bydd unrhyw berson sy'n fwriadol yn rhwystro person sy'n gweithredu trwy arfer unrhyw bŵer o dan rheoliad 4 uchod yn euog o dramgwydd ac yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Diddymu Rheoliadau 2001

6. Diddymir Rheoliadau 2001.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

4 Gorffennaf 2002

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(7) An authorised person, or a person designated under paragraph (4) above, shall, (if so requested), produce evidence of the authority or designation.

(8) An authorised person, or a person designated under paragraph (4) above, who, in exercise of any power conferred by this regulation, enters on any premises which are unoccupied or whose occupier is temporarily absent, shall leave the premises secured against trespassers as effectively as before that person entered.

(9) An authorised person, or a person designated under paragraph (4) above, shall not be liable in any civil or criminal proceedings for anything done in the purported exercise of any power conferred by this regulation if the court is satisfied that the act was done in good faith and that there were reasonable grounds for doing it.

Offences

5. -(1) Any person who contravenes regulation 3 above or causes or permits another person to contravene that regulation shall be guilty of an offence and shall be liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

(2) Any person who intentionally obstructs a person acting in the exercise of any power under regulation 4 above shall be guilty of an offence and shall be liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

Revocation

6. The 2001 Regulations are revoked.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a)

4th July 2002

D. Elis-Thomas

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p. 38.

(a) 1998 c.38.

ATODLEN 1 Rheoliad 3(b) SAFLEOEDD O DDIDDORDEB GWYDDONOL ARBENNIG	SCHEDULE 1 Regulation 3(b) SITES OF SPECIAL SCIENTIFIC INTEREST	
Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Site of Special Scientific Interest	Dyddiad Dynodi o dan adran 28(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 Date of Notification under section 28(1) of the Wildlife and Countryside Act 1981	Lleoliad / Location (Cyfeirnod Grid OS/OS Grid Reference) (gweler y nodyn isod/see notebelow)

Angle Bay	04/03/1993	SM883025
Beddmanarch-Cymyran	25/09/1998	SH275790
Broadwater	13/01/1993	SH582027
Burry Inlet and Loughor Estuary	25/09/1989	SS135985
Carew and Cresswell Rivers	04/03/1993	SN025055
Cosheston Pill	04/03/1993	SM990036
Daugleddau	04/03/1993	SN003116
Dee Estuary	23/09/1998	SJ220800
Dyfi	14/03/1995	SN635950
Flatholm	10/03/1993	ST220649
Gronant Dunes / Talacre Warren	29/01/1998	SJ100847
Inner Marsh Farm	11/02/1995	SJ307735
Laugharne and Pendine Burrows	18/02/1990	SN290070
Llyn Alaw	29/03/1985	SH390865
Llyn Syfaddan / Llangorse Lake	09/02/1983	SO133265
Llyn Traffwll	18/02/1986	SH325770
Llynnoedd y Fali / Valley Lakes	22/05/1986	SH310770
Morfa Harlech	25/05/2001	SH570660
Ynys Llanddwyn / Newborough Warren	09/03/1995	SH400640
Pembrey Coast	10/11/1983	SN316054
Pembroke River and Pwll Crochan Flats	04/03/1993	SM940025
Severn Estuary	02/02/1989	ST226758
Shotton Lagoon and Reedbeds	19/10/1999	SJ298709
Sully Island	16/12/1986	ST167670
Teifi Estuary	08/12/1997	SN158502 SN785675
Traeth Lafan	24/09/1984	SH630750
Whiteford Burrows and Landimore Marsh	04/04/1984	SS450955

Nodyn: Mae cyfeirnod Grid Cenedlaethol yr Arolwg Ordnans yn rhoi pwynt o fewn y safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig.

Note: The Ordnance Survey National Grid reference gives a point within the site of special scientific interest.

ATODLEN 2 Regulation 3(c) ADAR GWYLLT MEWN PERTHYNAS Â HWY Y MAE'R GWAHARDDIAD AR SAETHU Â PHELENNI PLWM YN GYMWYS IDDYNT	SCHEDULE 2 Rheoliad 3(c) WILD BIRDS IN RESPECT OF WHICH THE PROHIBITION ON SHOOTING WITH LEAD SHOT APPLIES
--	---

Enw Cyffredin	Common Name	Enw Gwyddonol / Scientific Name
Cwtiar	Coot	<i>Fulica Atra</i>
Hwyaid a Gwyddau (holl rywogaethau pob un ohonynt)	Ducks and Geese (all species of each)	<i>Anatidae</i>
Iâr Ddŵr	Moorhen	<i>Gallinula chloropus</i>

Nodyn: Mae'r enw neu'r enwau cyffredin yn cael eu cynnwys fel canllaw yn unig; os bydd unrhyw anghydfod neu achos, rhaid peidio â chymryd yr enw neu'r enwau cyffredin i ystyriaeth.

Note: The common name or names are included by way of guidance only; in the event of any dispute or proceedings, the common name or names shall not be taken into account.

OFFERYNNAU STATUDOL

2002 Rhif 1730 (Cy.164)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd
(Cyfyngu'r Defnydd ar Beledi
Plwm) (Cymru) 2002

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 No. 1730 (W.164)

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

The Environmental Protection
(Restriction on Use of Lead Shot)
(Wales) Regulations 2002

© Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£2.50

W133/08/02

ON

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090550-4



9 780110 905501